# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## DYDD LLUN, 28AIN CHWEFROR, 2022

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd R. James [Cadeirydd]

**Y Cynghorwyr:**
W.T. Evans, H.I. Jones, E.M.J.G. Schiavone a D. Thomas

**Hefyd yn bresennol mewn perthynas ag Eitem 4 ar yr Agenda:**
Y Cynghorydd J.S. Edmunds

**Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
G. Morgan - Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd
H. Daniels - Ymgynghorydd Dysgu a Datblygu
M. Evans Thomas – Pri Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
A. Owen – Prif Gyfieithydd

**Rhith-gyfarfod : 1.30 pm - 1.48 pm**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

### 3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 26AIN TACHWEDD 2021

Cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd at gofnod 6 (Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW)) a dywedodd wrth y Pwyllgor fod IRPW, ers y cyfarfod diwethaf, wedi cadarnhau lefelau cyflog fel y cynigiwyd yn wreiddiol.

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion y cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 26 Tachwedd, 2021 yn gywir.**

### 4. ADRODDIAD TERFYNOL GRWP GORCHWYL A GORFFEN PWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD PROSES DDEMOCRATAIDD - FFYRDD NEWYDD O WEITHIO

Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth, 2021 (gweler cofnod 3), cytunodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu gofynion aelodau etholedig a chyfetholedig ac ystyried ffyrdd newydd o weithio ar gyfer swyddogaeth y gwasanaethau democrataidd yn y dyfodol.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i'r Cynghorydd Jeff Edmunds, Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a wahoddwyd i gyflwyno adroddiad terfynol, canfyddiadau ac argymhellion y Grŵp Gorchwyl y Gorffen.

Cyfarfu'r Grŵp bedair gwaith rhwng mis Mai 2021 a mis Chwefror 2022. Yn ogystal, gwahoddodd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd bob grŵp gwleidyddol i gyfarfod â hwy i drafod syniadau cychwynnol a chael barn aelodau etholedig.

Talodd y Cynghorydd Edmunds deyrnged i'r diweddar Gynghorydd Mair Stephens, a oedd yn aelod ymroddedig a hynod werthfawr o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Cyfrannodd yn fawr tuag at waith y Grŵp ac roedd yn angerddol am y fenter Ffyrdd Newydd o Weithio.

Rhoddodd y Cynghorydd Edmunds ddiolch hefyd i holl aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen am eu cyfraniad, i'r holl aelodau am eu hadborth ac i swyddogion am eu cymorth.

Nodwyd bod gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i ddisodli'n rhannol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a gyflwynodd ofyniad cyfreithiol i Awdurdodau Lleol wneud a chyhoeddi trefniadau er mwyn sicrhau y gellid cynnal cyfarfodydd drwy unrhyw offer neu gyfleuster arall a olygai fod yn rhaid cynnal cyfarfodydd aml-leoliad (cymysgedd o fod yn bresennol yn gorfforol ac o bell) a chafodd hyn ei adlewyrchu yn yr adroddiad.

Arweiniodd adolygiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen at adroddiad yn cynnwys cyfanswm o bum argymhelliad a luniwyd gan y Grŵp ar ôl ystyried ystod eang o dystiolaeth. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'w ystyried a'i argymell i'r Cyngor.

**CYTUNWYD YN UNFRYDOL I ARGYMELL I'R CYNGOR y dylid cymeradwyo adroddiad terfynol ac argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd i adolygu'r broses ddemocrataidd a ffyrdd newydd o weithio.**

## 5. CYNLLUN GWEITHREDU AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH

Yn ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf 2021 (gweler cofnod 5), penderfynodd y Cyngor i ymrwymo i fod yn 'Gyngor Amrywiol' a chymeradwyodd ddatganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yn ogystal, cytunodd y Cyngor i roi tasg i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i ddatblygu cynllun gweithredu cyn etholiad llywodraeth leol 2022.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n hyrwyddo amrywiaeth mewn llywodraeth leol gan gynnwys:-

- hawl i aelodau gweithrediaeth a chadeiryddion pwyllgorau rannu swyddi.
- dyletswydd ar brif gynghorau i lunio Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau a hyrwyddo ymwybyddiaeth o sut i ddod yn aelod o'r cyngor.
- dyletswydd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau eu grwpiau.
- Darlledu cyfarfodydd llawn y Cyngor yn electronig.
- Y gallu i fynychu cyfarfodydd y cyngor o aml-leoliadau gan gynnwys presenoldeb corfforol, hybrid ac o bell.

- Darpariaethau sy'n galluogi i'r cyfnod hwyaf o absenoldeb ar gyfer pob math o absenoldeb teuluol i aelodau awdurdodau lleol gael ei bennu o fewn rheoliadau ac i absenoldeb mabwysiadu adlewyrchu'r hyn sydd ar gael i weithwyr.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y fersiwn drafft o'r Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Roedd yr amcanion yn y Cynllun Gweithredu yn seiliedig ar y rhai a awgrymwyd gan Lywodraeth Cymru, fodd bynnag, gellid ychwanegu rhai eraill os dymunir.

Cyfeiriwyd at ddefnyddio'r acronym "BAME" yn y Cynllun Gweithredu ac awgrymwyd y dylid defnyddio'r term yn llawn yn hytrach na'r acronym.  Cytunodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i fynd ar drywydd hyn a newid y Cynllun Gweithredu fel y bo'n briodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR y dylid cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth.**

| | |
|---|---|
| ________________________ | __________________ |
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |